

## SIARTER YR IAITH GYMRAEG

Ym Metro Bank rydym am greu **FFANS** nid cwsmeriaid – ac 'allwn ni ddim ag aros i wneud hynny yng Nghymru.

Wrth i Metro Bank agor ei ddrysau cyntaf yng Nghymru yn 2020, rydym yn cydnabod fod yr iaith Gymraeg yn rhoi hunaniaeth ac ymwybyddiaeth o berthyn i lawer yn y wlad. Fel banc sy'n ymroddedig i'r gymuned, rydym yn falch o gefnogi mentrau Llywodraeth Cymru i alluogi siaradwyr Cymraeg i gael y cyfle i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.

Mae Metro Bank wedi bod yn gweithio ar ddatblygu ffyrdd o gynnig gwasanaeth gwerthfawr yn y Gymraeg i'n holl gwsmeriaid. Byddwn yn ceisio gwella'r hyn sydd ar gynnig yn barhaus wrth i ni lansio yng Nghymru a dyfod yn rhan o'r gymuned leol.

Yr hyn mae ein hymrwymiaidau yn ei olygu i'n cwsmeriaid a'n cydweithwyr yng Nghymru:

1. Caiff pob un o'n cydweithwyr y cyfle i ddysgu'r iaith Gymraeg. Yn ein lleoliadau yng Nghymru bydd yn bosibl i chi adnabod cydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg gan y byddan nhw'n gwisgo logo Iaith Gwaith sy'n dynodi siaradwyr rhugl neu ddysgwyr.
2. Yn ein lleoliadau yng Nghymru bydd y rhan fwyaf o'n byrddau digidol ac arwyddion ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.
3. Bydd Parth Arian /Money Zone, sef ein rhaglen addysg ariannol i ysgolion a grwpiau ieuenctid, yn cael ei darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddibynnu ar flaenoriaeth y grŵp.
4. Mae ein lleoliadau'n gweithredu fel hyb i'r gymuned leol, gan gartrefu digwyddiadau rhwydweithio busnes rheolaidd. Yn ein lleoliadau yng Nghymru bydd y digwyddiadau hyn yn croesawu siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd ac yn dathlu diwylliant Cymru.
5. Wrth gwrs, fel banc sy'n gyfeillgar i gŵn, ceir croeso cynnes i bob ci Cymraeg ei iaith.